CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	21ain o Fedi 2023
Teitl:	Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus
Diben yr adroddiad:	Ceisio cymeradwyaeth gan y Cyngor i ymestyn Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ar gyfer Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan am dair blynedd arall.
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Matthew Vaux

Ym mis Hydref 2017, dirymwyd y Gorchmynion Mannau Cyhoeddus Dynodedig blaenorol ac fe'u disodlwyd gan y Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus. Mae'r Gorchmynion hyn yn caniatáu gwahardd yfed alcohol mewn ardaloedd dynodedig er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae tri Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus mewn grym yng Ngheredigion, a hynny yng nghanol trefi Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan.

Mae gweithredu Gorchymyn yn golygu ei bod yn drosedd os bydd rhywun yn methu â chydymffurfio â chais gan Swyddog yr Heddlu neu Swyddog Awdurdodedig i beidio ag yfed alcohol neu'n gwrthod ildio alcohol i'r swyddog. Mae troseddwyr yn agored i euogfarn ddiannod a dirwy nad yw'n fwy na £500.

Roedd y tri GDMAC yng Ngheredigion â chyfnod o dair blynedd yn wreiddiol, ac roeddent if od i ddod i ben ym mis Hydref 2020. Fodd bynnag, mae Adran 60 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn caniatáu i Awdurdod Lleol ymestyn y Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus am dair blynedd arall pan ei fod yn fodlon bod angen gwneud hynny er mwyn atal y gweithgarwch a nodir yn y Ddeddf rhag digwydd.

Yn 2020, roedd y Cyngor yn fodlon bod yr amodau hyn yn parhau i gael eu bodloni yn achos pob un o'r tri GDMAC, a chymeradwyodd eu hadnewyddu am dair blynedd arall. Felly, dyddiad terfynnu presennol y GDMAC yw 19 Hydref 2023.

Er mwyn ymestyn y ddarpariaeth, mae Canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol (Mai 2017) yn nodi bod yn rhaid cynnal adolygiad bob tair blynedd, ac mewn achosion lle mae gorchymyn sy'n bodoli eisoes yn parhau **nid oes angen** cynnal ymgynghoriad llawn. Byddai angen ymgynghoriad llawn pe bai terfynau daearyddol yr ardal ddynodedig yn cael eu newid neu pe bai gweithgareddau ychwanegol yn cael eu hychwanegu i'r gwaharddiad h.y. cardota, bysgio, etc.

Er mwyn i Orchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus barhau, mae'n rhaid bod yr Awdurdod yn rhesymol fodlon bod dau amod yn cael eu bodloni, sef:

1) *bod gweithgareddau a gyflawnir mewn man cyhoeddus yn ardal yr Awdurdod wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yr ardal honno, neu ei bod yn debygol y bydd gweithgareddau'n cael eu cyflawni mewn man cyhoeddus o fewn yr ardal honno ac y byddant yn cael effaith o'r fath; a;*
2) *bod effaith y gweithgareddau, neu'r effaith debygol, yn barhaus neu'n debygol o fod i'r fath raddau fel bod y gweithgareddau yn afresymol, neu'n debygol o fod, ac felly'n cyfiawnhau'r cyfyngiadau a bennir yn yr hysbysiad.*

Mae'r Awdurdod wedi cysylltu â Heddlu Dyfed-Powys, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a'r tri Chyngor Tref (Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi); gofynnwyd i bob un ohonynt am eu barn ynghylch a yw'r Gorchymyn yn parhau i fod yn effeithiol ac a oes angen parhau â'r ddarpariaeth. Mae'r ymatebion a gafwyd yn dynodi eu bod i gyd o'r farn y dylai'r Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus barhau ar yr un sail ag yn y tair blynedd diwethaf, heb unrhyw gais i newid y ffiniau presennol.

At hynny, mewn cyfarfod o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar 19eg o Fehefin 2023, cadarnhawyd bod Partneriaid o'r farn bod y Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn ataliad ac yn ddull effeithiol o leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol. Am y rhesymau hyn mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn argymell bod y Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus presennol yn cael eu hymestyn am 3 blynedd arall.

Felly, rydym yn rhesymol fodlon bod dau amod y Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus fel y nodir mewn deddfwriaeth wedi'u bodloni.

Pe bai'r Cyngor yn cytuno i ymestyn y Gorchmynion, bydd cost o oddeutu £700 yn gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn y wasg yn ystod mis Hydref, gan hysbysu aelodau'r cyhoedd bod y Gorchmynion wedi'u hymestyn a'u hysbysu o effaith Gorchymyn o'r fath.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau?
Do

Os na, nodwch pam

Crynodeb: **Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn dangos bod canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion yn bennaf, tra bod y gweddill yn niwtral.**

Hirdymor:	Bydd angen adolygu'r Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus bob tair blynedd ar ôl eu gweithredu er mwyn canfod a oes eu hangen o hyd.
Cydweithio:	Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio

		gyda Chyngor Sir Ceredigion i erlyn lle bo hynny'n briodol. Bydd gweithio ar y cyd â safleoedd trwyddedig hefyd yn parhau er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo arferion yfed sy'n gymdeithasol gyfrifol.
	Cynnwys:	Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd yn nodi hyd a lled y broses ymgynghori cyn i'r Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus barhau.
	Atal:	Bydd parhau â'r Gorchmynion yn caniatáu i gamau gael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig ag yfed mewn mannau cyhoeddus.
	Integreiddio:	Mae'r Gorchmynion presennol sy'n gwahardd yfed alcohol yng nghanol y trefi wedi cael effaith gadarnhaol o ran lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a bygythiol ac wedi galluogi'r Heddlu i fynd ag alcohol oddi ar bobl.
Argymhelliad:	Bod y Cyngor yn penderfynu y dylai'r Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag Alcohol gael eu hymestyn am 3 blynedd arall, yn weithredol rhwng 20 Hydref 2023 a 19 Hydref 2026.	
Rheswm dros y penderfyniad:	Daw'r Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus presennol i ben ar 19 Hydref 2023. Mae angen hwyluso parhad mesurau drwy barhau i ddarparu Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn y tair canol tref a nodwyd. Mae angen gwneud hyn er mwyn mynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol, troseddau a achosir gan unigolion meddw, ac aflonyddu a chodi ofn ar aelodau'r cyhoedd.	
Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol	
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027	
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach	
Goblygiadau cyllid a chaffael:	Mae arwyddion wedi'u gosod a byddant yn cael eu hadolygu ar ôl eu hadnewyddu. Caiff gwaith gorfodi ei wneud gan Heddlu Dyfed Powys. Bydd cost yn gysylltiedig â hysbysiadau cyhoeddus cysylltiedig.	
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim	

Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo/asedau	Dim
Risgiau:	Bydd peidio â chael Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ar waith yn cael effaith ar allu'r Cyngor a Heddlu Dyfed-Powys i fynd i'r afael ag yfed gwrthgymdeithasol o fewn y tair tref dan sylw. Gall hyn gael effaith andwyol ar drigolion ac ymwelwyr y Sir ac ar enw da'r Cyngor.
Pwerau Statudol:	Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014
Papurau Cefndir:	• Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Troseddu a Phlismona 2014 • Cymdeithas Llywodraeth Leol – Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus – Canllawiau i Gynghorau 2017 • Adroddiad i'r Cyngor 21/09/17 – newid o GMCD i GDMAC • Adroddiad i'r Cabinet 01/09/20 – Lle cytunwyd i adnewyddu' darpariaeth y 3 GDMAC yng Ngheredigion (adnewyddiad cyntaf)
Atodiadau:	• Asesiad Effaith Integredig • • Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Aberystwyth) Alcohol (Yfed mewn Mannau Cyhoeddus) 2017 • • Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Aberteifi) Alcohol (Yfed mewn Mannau Cyhoeddus) 2017 • • Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Llambed) Alcohol (Yfed mewn Mannau Cyhoeddus) 2017
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad
Swyddog Adrodd:	Tim Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Wrth Gefn
Dyddiad:	31ain Awst 2023